N'ad fod gennyf ond d'ogoniant

Caneuon Ffydd: Rhif 705

N'ad fod gennyf ond d'ogoniant
pur, sancteiddiol, yma a thraw,
'n union nod o flaen fy amrant
pa beth bynnag wnêl fy llaw:
treulio 'mywyd
f'unig fywyd, er dy glod.

O distewch gynddeiriog donnau,
tra bwy'n gwrando llais y nef;
sŵn mwy hoff, a sŵn mwy nefol
glywir yn ei eiriau ef:
f'enaid gwrando
lais tangnefedd pur a hedd.

WILLIAM WILLIAMS, 1717–91

MYFYRDOD

Gwyddai William Williams gystal â neb am awydd dyn am ryddid. Fe glywodd sôn am y Chwyldro Ffrengig erbyn diwedd ei oes a chanlyniadau hynny i'r holl gyfandir wrth i'r werin roi heibio ei hen ormeswyr a cheisio rhyddid. Cyfiawnheir y syniadaeth a roddodd fod i'r chwyldro yn un o lyfrau enwocaf Thomas Paine, *Rights of Man*. Prin fod Pantycelyn wedi cael cyfle i ddarllen y gwaith hwn, er ei fod yn ddarllenwr eang anghyffredin, gan iddo farw ym mlwyddyn cyhoeddi rhan gyntaf y gwaith yn y Saesneg ym 1791.

Ond fe wyddai Pantycelyn beth oedd gwir ryddid pob dyn hefyd, fel y dywed John Stott yn ein dyddiau ni: 'Nid rhyddid rhag ein cyfrifoldeb tuag at Dduw ac eraill er mwyn byw i ni'n hunain ydy rhyddid, ond rhyddid rhagom ni ein hunain i fyw er mwyn Duw ac eraill.' Dyna ddiffiniad cryno iawn o ryddid mewn perthynas â dyn a Duw.

Am y rhyddid hwnnw mae Williams yn sôn yn yr emyn

sydd o'n blaenau ni nawr, y rhyddid i fyw i Dduw. Yr ydym ni i gyd yn ymwybodol iawn o fyrder ein hoes a'r ffaith mai dim ond un tro a gawn ni arni hi. Nid rihyrsal ydy'r bywyd hwn ar gyfer ei redeg eto, ond mae'r ddrama'n digwydd ar hyn o bryd ac yn cael ei chwarae allan yn ein bywyd bob dydd. Dyna sydd yn gwneud y meddylfryd yng ngeiriau Williams yn un prydferth pan ddywed am 'treulio 'mywyd, f'unig fywyd, er dy glod'. Fe allai ef, yn ŵr ifanc disglair, fod wedi dilyn amryw yrfaoedd, ond dewis ei gysegru'i hun i Dduw a wnaeth a gweithio i hyrwyddo achos Iesu Grist ymhlith y Methodistiaid dirmygedig. Ond, beth bynnag y dewiswn ei wneud o'n bywydau, pa broffesiwn bynnag y penderfynwn ei ddilyn, 'pa beth bynnag wnêl fy llaw', fel y dywed ei bennill cyntaf, fe allwn fod yn dwyn clod i Dduw yn y gwaith hwnnw os byddwn yn ei gadw ef 'n union nod o flaen fy amrant'. Paul sy'n sôn am fywyd fel ras, a bod Duw yn gosod nod yn Iesu Grist o'n blaenau a gwobr ar ein cyfer hefyd, 'Yr wyf yn cyflymu at y nod, i ennill y wobr y mae Duw yn fy ngalw i fyny ati yng Nghrist Iesu' (Phil. 3:14).

Yr ydym yn gwbl rydd i wrando neu i beidio â 'gwrando llais y nef'; fe rydd Duw ryddid inni anwybyddu'r hyn a ddywed wrthym, derbyn ei gyngor neu ei wrthod. 'Cynghoraf di i brynu gennyf fi aur wedi ei buro drwy dân, iti ddod yn gyfoethog' (Dat. 3:14), oedd ei gyngor i'r eglwys yn Laodicea. Dywedodd wrthyn nhw hefyd ei fod yn 'sefyll wrth y drws ac yn curo' (3:20), a'i fod yn rhoi'r rhyddid iddyn nhw agor neu beidio ag agor iddo. Pan dderbyniwn ei gyngor, felly, a phrynu ganddo ac agor y drws iddo yna fe dderbyniwn y rhyddid y crëwyd ein heneidiau ar ei gyfer. Wedi'n clymu wrth Iesu y profwn y rhyddid mwyaf y gall y galon ddynol ei brofi byth. Dyna pam fod Williams mor barod i dreulio'i unig fywyd er clod i Dduw, gan ddewis rhyddid mewn perthynas â Duw. Hebddo nid oes rhyddid o gwbl.

GWEDDI

Diolch iti, O Dduw, am gael gwrando ar lais y nef a derbyn rhyddid yn unig wrth imi gael fy ngollwng o bob caethiwed gan dy Fab Iesu Grist. Helpa fi i fyw yn y rhyddid hwn – y rhyddid i dreulio f'unig fywyd, er dy glod ac er mwyn eraill. Yn enw Iesu. Amen.